NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Technolegau digidol i asesu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)

21 Hydref 2024

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio QbTest i helpu i ddiagnosio anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) mewn pobl 6 i 17 oed. Dylid ond ei ddefnyddio ochr yn ochr ag asesiad safonol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Mae angen mwy o ymchwil ar 6 technoleg ddigidol i helpu i ddiagnosio ADHD, ac i wirio pa mor dda y mae'r driniaeth ar gyfer ADHD yn gweithio. Dyma nhw:

- QbTest mewn pobl 18 oed neu'n hŷn
- Prawf EFSim
- Fersiwn y We o'r Prawf EFSim
- Nesplora Attention Adults Aquarium
- Nesplora Attention Kids Aula
- QbCheck.

Mae technolegau digidol i asesu ADHD yn brofion seiliedig ar gyfrifiaduron neu realiti rhithwir lle mae'r person yn cyflawni cyfres o dasgau efelychiadol. Mae'r profion yn mesur pethau fel symudiad, sylw ac amseroedd ymateb. Gall defnyddio'r rhain ochr yn ochr ag asesiadau safonol helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wneud diagnosisau yn gynt, gyda'r angen am lai o apwyntiadau, ac felly gall leihau amseroedd rhestrau aros.

## A yw'r prawf hwn yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â phrofion eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y prawf?
- A allaf ddewis ble i gael y prawf hwn? A allaf gael y prawf hwn yn fy ysbyty neu glinig lleol?
- Faint fydd y prawf yn ei gymryd?
- Sut y byddaf yn cael canlyniadau'r prawf? A fydd apwyntiad dilynol?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG ar ADHD fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y ADHD Foundation (info@adhdfoundation.org.uk) roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

**© NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7434-4